

Ar ôl cwblhau'r brentisiaeth, bydd Technolegydd Pensaernïol dan brentisiaeth yn gallu:

Gwybodaeth

- K1.1 Dangos gwybodaeth am egwyddorion dylunio pensaernïol a thechnolegol, gwyddoniaeth (hynny yw, egwyddorion ffiseg adeiladau a phatholeg) a'r gwerthoedd sy'n gyrru'r dulliau a gymerir mewn gwaith ar adeiladau newydd a phresennol (er enghraifft, cadwraeth, cynnal a chadw, adnewyddu ac addasu).
- K1.2 Dangos gwybodaeth a dealltwriaeth o'r broses adeiladu a'r deunyddiau a'r dechnoleg sy'n ffurfio arferion gorau.
- K1.3 Deall effaith amgylcheddol tymor byr a hir gweithgareddau adeiladu, yn gadarnhaol ac yn negyddol, a sut i wneud y gorau o'r effeithiau cadarnhaol a lleihau'r effeithiau negyddol hyn yn ystod pob cam o'r prosiect ac yn y tymor hir.
- K1.4 Gwybod sut i adolygu bygythiadau a chyfleoedd i'r amgylchedd adeiledig ac asesu a gwerthuso dylanwad ffactorau lleol, cymdeithasol, technolegol, amgylcheddol. Cynhwysiant, hanesyddol, cyfoes, economaidd, gwleidyddol, cyfreithiol a moesegol sy'n llywio ac yn dylanwadu ar ddisgyblaeth ac ymarfer Technoleg Pensaernïol.
- K1.5 Deall anghenion cleientiaid, defnyddwyr a rhanddeiliaid drwy ddadansoddi a dehongli natur prosiect, gan gynnwys gwerthuso cyd-destun i bennu cwrpas y prosiect.
- K1.6 Deall rhwymedigaethau o ran gofynion cyfreithiol a rheoleiddiol megis iechyd a diogelwch, gan gynnwys diogelwch tân yn ogystal â materion lles ac amgylcheddol i gynnwys:
 - Sut i nodi peryglon posibl a rheoli'r risgiau
 - Defnyddio datblygiadau mewn adeiladu a thechnolegau cynaliadwy i ddylunio'n gyfannol o egwyddorion sylfaenol, ar gyfer cynhyrchu, cynaliadwyedd, perfformiad, ansawdd bywyd a lles cymdeithasol
 - Ymgorffori pob gofyniad priodol wrth gynhyrchu atebion dylunio i sicrhau lles, diogelwch a sicrwydd pob rhanddeiliad drwy gydol cylch bywyd adeiladau
- K1.7 Deall sut i gymhwyso gwybodaeth am y broses adeiladu i archwilio a dewis prosesau caffael

- K1.8 Creu atebion dylunio gwydn, cynaliadwy a chynhwysol fel systemau cyfan ac yn fanwl mewn ymateb i amrywiaeth o sefyllfaoedd, wedi'u llywio gan ddealltwriaethau cyfredol o fewn y ddisgyblaeth a'r cyd-destun ehangach, gan gynnwys newid hinsawdd.
- K1.9 Defnyddio arferion technolegol cyfredol i wneud penderfyniadau wedi'u seilio ar ddata mewn amgylchedd gwaith cydweithredol, yn seiliedig ar a thrwy gymhwyso prosesau a thechnolegau ar gyfer modelu, cynhyrchu, rheoli a chyfathrebu gwybodaeth.
- K1.10 Deall a gwerthuso arddulliau arwain gwahanol mewn perthynas â phrosiectau sy'n briodol i'w rôl.
- K1.11 Deall technolegau a'r berthynas rhwng elfennau adeiladu, systemau, cydrannau, deunyddiau a dulliau a ddefnyddir wrth adeiladu ac addasu gwahanol fathau o adeiladau, a sut mae'r rhain yn cyfrannu at swyddogaethau adeiladau.
- K1.12 Adnabod diffygion cyffredin mewn adeiladau a deall mesurau ansawdd gan gynnwys adroddiadau strwythurol, arolygon dirywio ac adroddiadau adeiladu a sut y gellir eu defnyddio.
- K1.13 Cymhwyso egwyddorion pensaernïol a thechnolegol o ran strwythur, ffabrig a systemau gwasanaeth i greu cysyniadau a datblygu atebion dylunio mewn cyd-destunau cymhleth wrth weithio'n annibynnol neu fel rhan o dîm.
- K1.14 Deall deddfwriaeth gyfredol a safonau diogelwch y DU/y genedl gartref eraill a'u heffaith ar weithgareddau adeiladu.
- K1.15 Deall gwyddoniaeth a pheirianeg adeiladu a pherfformiad amgylcheddol gan gynnwys ffiseg adeiladau, peirianeg dân a phatholeg sy'n ymwneud ag archwilio, gwerthuso a chydymffurfio wrth ddylunio neu weithio ar adeiladau newydd a phresennol. Gall y rhain gynnwys prosiectau cadwraeth, cynnal a chadw, ôl-osod, adnewyddu a/neu newid defnydd.
- K1.16 Gwybod sut i ddatblygu perthnasoedd gwaith effeithiol a gweithio ar draws timau gyda gweithwyr proffesiynol eraill ym maes adeiladu sy'n rhan o'r prosiect.

- K1.17 Dangos dealltwriaeth o ddulliau caffael a gweinyddu contractau, ymarfer pensaernïol, arweinyddiaeth dylunio, rolau a swyddogaethau rheoli (gan gynnwys dylunydd arweiniol/prif ddylunydd, rheoli dylunio, rheoli prosiect, rheoli gwybodaeth, rheoli cynllun cydymffurfio, ac ati) ac ymddygiadau proffesiynol, ymddygiad a moeseg.
- K1.18 Deall dulliau i sicrhau cydweithredu a chyfathrebu effeithiol gyda deiliaid dyletswydd gan gynnwys cleientiaid, Prif Ddylunwyr, Prif Gontractwyr, ymgynghorwyr a/neu rhanddeiliaid, cydweithwyr, is-gontractwyr.
- K1.19 Deall yr angen am ddiogelwch adeiladau mewn perthynas â defnyddwyr neu drigolion presennol a/neu yn y dyfodol.

Sgiliau

- S1.1 Gosod ac adolygu amcanion, nodi adnoddau a'u cyfyngiadau a chynllunio, monitro a rheoli eich gweithgareddau eich hun i sicrhau bod prosiectau'n cael eu cyflawni yn unol â gofynion y prosiect ar gyfer y rhanddeiliaid gan gynnwys trigolion neu ddefnyddwyr.
- S1.2 Cyfrannu, o dan oruchwyliaeth, at reoli risgiau iechyd, diogelwch, lles ac amgylchedd yn unol â deddfwriaeth, peryglon, yr amgylchedd, adeiladau diogel a systemau gwaith diogel, a chynllunio ar gyfer eu lliniaru i leihau'r effaith.
- S1.3 Ymgysylltu â chyfrannu, o dan oruchwyliaeth, at faterion cyfreithiol a chontractiol a rheoli contractau sy'n ymwneud â'r safle a gweithio o fewn cyfyngiadau masnachol a chyfreithiol i sicrhau canlyniadau prosiect effeithiol fel/yn ôl yr angen.
- S1.4 Cydlynu â'r Prif Ddylunydd a/neu'r Contractwr ar faterion sy'n ymwneud â diogelwch adeiladau er budd pob defnyddiwr neu drigolyn presennol a'r dyfodol.
- S1.5 Ymchwilio i broblemau, achosion ac effeithiau a phennu atebion cydymffurfio.
- S1.6 Cymryd rhan yn y broses o nodi, cael, prosesu a gwneud gwybodaeth ar gael sy'n ofynnol i reoli prosiectau.

- S1.7 Cyfrannu at werthuso ac asesu camau prosiect gyda chydweithwyr, aelodau'r tîm a rhanddeiliaid allanol i sicrhau gwaith tîm effeithiol, datrys gwrthdaro a gwersi a ddysgwyd.
- S 1.8 Cyfrannu at weithredu atebion arloesol.
- S1.9 Cyfrannu at reoli neu reoli o dan oruchwyliaeth drosglwyddo effeithiol i'r cleient a gwasanaeth cwsmer effeithiol.
- S1.10 Datblygu perthnasoedd gwaith effeithiol, gweithio ar draws timau a datrys gwrthdaro gyda gweithwyr proffesiynol eraill ym maes adeiladu sy'n rhan o'r prosiect.
- S1.11 Cyfrannu at ddadansoddi a dehongli cyfarwyddiadau/briffiau i bennu cwmpas y prosiect ar gyfer y canlyniadau dylunio, gan gynnwys gofynion rhanddeiliaid.
- S1.12 Creu atebion dylunio ar gyfer prosiect(au) yn seiliedig ar egwyddorion dylunio pensaernïol a thechnolegol drwy ddylunio, integreiddio a chydlynw strwythur, ffabrig a gwasanaethau.
- S1.13 Datblygu atebion dylunio sy'n gynhwysol, yn ddiogel, yn wydn, yn gadarn ac yn gynaliadwy.
- S1.14 Cyfrannu at y dyluniad a nodi systemau, cydrannau, deunyddiau a dulliau wedi'u gwerthuso'n feirniadol a ddefnyddir o fewn prosiect i fodloni paramedrau cynhyrchu a pherfformiad adeiladau.
- S1.15 Sicrhau bod yr atebion dylunio yn cydymffurfio â gofynion contractiol, rheoleiddiol a chyfreithiol ar gyfer pob cam o'r prosiect.
- S1.16 Cyfrannu at reoli prosiectau'n annibynnol neu fel rhan o dîm o fewn cwmpas eu cyfrifoldebau gan gynnwys canlyniadau contract yn unol â gofynion cynllunio a rhaglennu.
- S1.17 O dan oruchwyliaeth, nodi ac asesu risgiau dylunio i liniaru effaith ar friff y prosiect, pobl, hinsawdd a'r amgylchedd naturiol.
- S1.18 Rheoli neu gyfrannu'n effeithiol ac yn effeithlon at reoli cynllunio a gweithredu dyluniad a gwaith, gan fynd i'r afael â gwrthdaro a datrys materion a allai godi.

- S1.19 Rheoli neu gyfrannu at reoli risg, cydymffurfiaeth a chymeradwyaethau gyda'r prosesau a'r gweithdrefnau statudol a rheoleiddiol a'r technolegau ym maes dylunio adeiladau, gan sicrhau bod adeiladau a/neu asedau yn perfformio'n effeithlon, yn effeithiol, yn ddiogel ac yn gynaliadwy.
- S1.20 Cyfrannu at nodi ffactorau sy'n effeithio ar esblygiad a chyflawni prosiect, gan gynnwys peryglon a risgiau, drwy ddatblygu, gweithredu a chynnal systemau a chofnodion.
- S1.21 Monitro, cymhwyso a defnyddio deddfwriaeth, safonau a fframweithiau rheoleiddiol perthnasol.
- S1.22 Dangos hunanfyfrio a gwelliant parhaus wrth ddeall pynciau cyfredol a newydd sy'n berthnasol i'w cyd-destun a'u hawdurdodaeth ymarfer.
- S1.23 Gweithredu ar lefel broffesiynol, gan ddangos ymddygiadau priodol a sgil a gofal rhesymol yn seiliedig ar wybodaeth, hyfedredd a phrofiad yn ymarferol.
- S1.24 Dangos ymwybyddiaeth a diwydrwydd priodol o egwyddorion ymarfer cynaliadwy; cyfiawnder cymdeithasol, a materion moesegol.
- S1.25 Cynllunio a rheoli cyfarfodydd effeithiol, cyflwyno gwybodaeth i amrywiaeth o gynulleidfaoedd.

Ymddygiadau

- B1.1 Gweithio o fewn eich lefel eich hun o gymhwysedd a gwybod pryd i geisio cyngor gan eraill a phryd i allu cynghori cleientiaid a/neu rhanddeiliaid.
- B1.2 Gweithio o fewn rheolau a rheoliadau cymhwysedd ac ymddygiad proffesiynol a dangos uniondeb a phroffesiynoldeb ym mhob gweithgaredd fel y nodir gan ofynion y corff proffesiynol.
- B1.3 Nodi anghenion datblygiad personol, addysg, sgiliau, profiad a/neu hyfforddiant a'u cyflawni drwy gynllunio gweithredu a monitro rheolaidd i gynnal ffitrwydd i ymarfer.
- B1.4 Dangos arfer da gan gynnwys iechyd a diogelwch yn yr amgylchedd gwaith, ar gyfer defnyddwyr a'r cyhoedd.

- B1.5 Dangos sgiliau rhyngbersonol effeithiol, gan gynnwys sut i gymell eraill a chodi ymwybyddiaeth o faterion o arfer gwael a hysbysu'r partïon perthnasol.
- B1.6 Dangos defnydd o brofiad proffesiynol i gyfathrebu a chyfleu penderfyniadau yn hyderus, yn briodol, yn gywir ac yn gyfrinachol os oes angen.
- B1.7 Rhyngweithio a chydweithio'n broffesiynol gyda rhanddeiliaid, asiantaethau a chleientiaid.
- B1.8 Dangos gwerthoedd moesoldeb, moeseg, parch ac uniondeb gan gynnwys safonau ac ymddygiad, e.e. arweinyddiaeth, gwaith tîm a chyfathrebu, cyfrifoldeb personol ac atebolrwydd a dyletswydd gofal tuag at eraill gan gynnwys trigolion a/neu ddefnyddwyr adeiladau.
- B1.9 Ymgymryd â datblygiad proffesiynol parhaus (DPP) i sicrhau bod y sgiliau, gwybodaeth, profiad ac ymddygiadau sy'n ofynnol i ymarfer yn gyfredol ac yn berthnasol.